ysgol gyfun gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Scroll down for English version

11/05/20

Annwyl Ddisgyblion a Rhieni / Gwarchodwyr,

Gobeithio i chi gael ychydig o amser i ymlacio dros ŵyl y banc. Hoffwn ddiweddaru rhai negeseuon pwysig gyda chi.

AIL AGOR:
Mae yna lawer o drafod wedi bod yn y wasg ac ar wefannau cymdeithasol yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Ga i dynnu'ch sylw at y negeseuon yma gan Lywodraeth Cymru ar y mater: https://llyw.cymru/dim-newid-i-sefyllfar-ysgolion-ar-1-mehefin-meddair-gweinidog-addysg? . Mae'r neges yn gyson gan Weinidog Addysg a Sgiliau Cymru, o ran y 5 egwyddor allweddol ar gyfer ail agor ysgolion unwaith eto – gweler yma: https://llyw.cymru/y-gweinidog-addysg-yn-nodi-pum-egwyddor-allweddol-ar-gyfer-ailgychwyn-ysgolion . Yn naturiol, byddwn yn eich hysbysu o unrhyw ddatblygiadau cyn gynted ag y bydd unrhyw wybodaeth bellach i'w rhannu.

LLES:
Gyda gwyliau hanner tymor y Sulgwyn yn nesáu, teimlwn yn gryf ei fod yn gyfle da i **ddisgyblion gael hoe o waith ysgol am yr wythnos**. Ni fydd gwaith felly yn cael ei osod i ddisgyblion o gwbl dros yr wythnos ac nid oes disgwyl i unrhyw ddisgybl chwaith dreulio amser ar waith ysgol. Gwell fydd treulio amser o ansawdd gyda'r teulu, yn ymlacio, cysylltu i gymdeithasu'n ddigidol gyda ffrindiau a theulu yn ddiogel ar lein a gwneud ymarfer corff dyddiol.

Rydym yn gwneud ar hyn o bryd, a byddwn yn parhau i gysylltu gyda'n disgyblion sydd angen ein cefnogaeth dros yr hanner tymor. Serch hyn, os ydych yn teimlo yr hoffech drafod gyda'ch tiwtor neu'ch 'oedolyn gofalgar' yn yr ysgol, plîs cysylltwch. Mae croeso hefyd i rieni gysylltu gyda ni os oes unrhyw bryder gennych am les eich plentyn. Defnyddiwch e-bost yr ysgol isod, fy e-bost i: DaviesS456@hwbcymru.net , neu Mr Bridgens ar ei e-bost ef: BridgensM@hwbcymru.net

DYSGU O BELL:
Yn naturiol byddwn yn parhau i osod tasgau gwaith ysgol, yn unol â'r amserlen gosod gwaith, dros y bythefnos sydd yn arwain at hanner tymor. Gweler ein safwe hefyd am adnoddau i gefnogi. Os oes unrhyw bryderon, cysylltwch.

Ar ôl hanner tymor y Sulgwyn:
Bydd natur y dysgu yma yn parhau fel mae ar hyn o bryd i **flynddoedd 7, 8, 10 a 12** ar ôl yr hanner tymor.

Gan fod disgyblion **blwyddyn 9** wedi cwblhau'ch opsiynau TGAU, mae'n fwriad i ddechrau ar yr amserlen interim arferol wrth i chi symud i astudio'ch cyrsiau TGAU am yr hanner tymor olaf (ni fydd amserlen newydd – byddwn yn parhau i osod gwaith yn unol â'r amserlen bresennol). Y bwriad, wrth gwrs, yw i gymell disgyblion blwyddyn 9 i barhau i ymgysylltu gyda'ch dysgu. Rydym yn ymwybodol iawn o'r pryder o geisio dysgu gwybodaeth newydd heb gefnogaeth uniongyrchol athro mewn rhai pynciau fydd yn hollol newydd i chi ddisgyblion. Yn sgîl hyn, bydd yr athrawon yn darparu fideo fydd yn rhoi cyflwyniad i'r pwnc ac yna i dasgau i ddatblygu'ch gwybodaeth gefndirol drwy ddarllen ac ymchwilio, a thasgau casglu gwybodaeth hwylus a diddorol. Bydd yna help a chefnogaeth barhaus gyda thasgau i brofi dealltwriaeth drwy gwisiau digidol a sesiynau cwestiwn ac ateb ar lwyfan Teams yn ôl yr angen. Os oes pryder gennych, cysylltwch gyda'ch athrawon am ragor o help a chefnogaeth.

Bydd gwaith 'paratoi ar gyfer cyrsiau'r 6ed' yn cael ei ddarparu i ddisgyblion **blwyddyn 11eg** a byddwn yn disgwyl i bob disgybl sydd am ddychwelyd i'r 6ed i ymgysylltu gyda'r tasgau yma. Tasgau wedi eu gosod yn agored i ddisgyblion o flwyddyn 11 ar SMHW fydd rhain, gan na fydd modd cadarnhau eich dewisiadau tan ar ôl i chi dderbyn eich canlyniadau ym mis Awst. Er hyn, mae'r athrawon yn ymwybodol o'r disgyblion sydd wedi dewis pa bwnc pan gasglwyd barn disgyblion am eu dewisiadau ym mis Chwefror.

Disgwylir i ddisgyblion **blwyddyn 13eg** baratoi ar gyfer eich cyrsiau yn y brifysgol drwy waith darllen ac ymchwil penodol. Eto, cysylltwch gyda'r athrawon perthnasol er mwyn derbyn mwy o gyngor a chefnogaeth gyda hyn.

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

CYMREICTOD:
Gwiriwch yr heriau Cymreictod mae Miss Clarke wedi eu gosod i chi yn wythnosol ar SMHW. Bydd yn wych cael cyfle i drafod drwy'r Gymraeg gyda nifer o'ch rhieni yn dilyn eich dylanwad chi! Rieni, dyma gyfle gwych i chi ddysgu mwy o Gymraeg – ewch amdani gyda'ch plant! Gweler y linc yma ar gyfer cyngor i helpu rhieni di-Gymraeg i gefnogi eu plant sydd mewn addysg Gymraeg: https://www.youtube.com/watch?v=vrGFWr9rayE

CYSYLLTU GYDA RHIENI:
Byddwn yn parhau i ddanfon negeseuon testun i'n rhieni gyda chyswllt i'r safwe er mwyn rhannu negeseuon pwysig – plîs gwiriwch ein safwe yn gyson am unrhyw ddiweddariadau. Dilynwch yr ysgol ar trydar: @bryntawe gan fod yna lu o wybodaeth yn cael ei rhannu yma hefyd, yn ogystal â'r cyfrifon di-ri sydd gan adrannau a blynyddoedd gwahanol. Mae gwaith yr ysgol yn parhau ac rydym ar agor yn ddyddiol, felly cysylltwch gyda ni i drafod yn yr ysgol neu ar y cyfeiriad e-bost isod yn ôl yr angen. Gweler y wybodaeth isod:

Gwarchod argyfwng wythnosol a dros y penwythnos: cysylltwch gyda fi yn uniongyrchol ar DaviesS456@hwbcymru.net neu drwy e-bost yr ysgol isod i drafod unrhyw anghenion pellach.

Prydau Ysgol am Ddim: rydym wrthi yn dosbarthu bagiau bwyd wythnosol i dua 140 o ddisgyblion yr ysgol a'u teuluoedd bob dydd Llun. Rydym wedi llwyddo i siarad â bron pob un o'n teuluoedd ynglŷn â threfniadau, ond cysylltwch gyda ni yn yr ysgol os yw eich plentyn yn deilwng ac am dderbyn. Mae yna drafodaethau i gynnwys taliadau BACS (i rieni disgyblion sydd yn deilwng) fel opsiwn arall i'r bagiau bwyd, er nid yw'n bendant. Bydd angen cyfeiriad e-bost cyfredol y rhiant arnom er mwyn gweithredu taliadau, os bydd yn bosib gwneud. Plîs danfonwch eich cyfeiriad e-bost at LeonardE18@hwbcymru.net a BowenJ129@hwbcymru.net os yw eich plentyn yn deilwng i brydau ysgol am ddim.

Gliniaduron: rydym wedi 'rhoi benthyg' tua 90 o gliniaduron i ddisygblion er mwyn eu cefnogi gyda dysgu o bell. Gwnewch y defnydd gorau o'r rhain, gan sicrhau eich bod yn eu dychwelyd yn yr un cyflwr ag y gwnaethoch eu derbyn gan yr ysgol. Rydym yn tracio'r gwaith rydych yn ei gyflwyno i'ch athrawon a byddwn yn cysylltu gyda disgyblion sydd ddim yn cyflwyno gwaith i gasglu'ch gliniaduron gan fod y galw amdanynt mor uchel.

Banc bwyd Penlan: mae staff yr ysgol yn gwirfoddoli yn wythnosol i gefnogi ym manc bwyd Penlan. Cysylltwch am ragor o fanylion.

Misyrnau: rydym yn parhau i ddarparu misyrnau i weithwyr gofal iechyd gyda dros 1000 bellach wedi cael eu dosbarthu. Os ydych yn gwybod am rieni, neu weithwyr yn ein cymuned fyddai yn elwa o'r misyrnau, yna cysylltwch gyda Miss Lindzi Miller am wybodaeth bellach: MillerL54@hwbcymru.net

Yn olaf, rydym yn meddwl am ein teuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan y feirws ac mae ein cydymdeimlad dwysaf gyda'r teuluoedd yma fel cymuned ysgol. Y peth gorau y gallwn ni gyd ei wneud yw dilyn y cyngor cyson gan Lywodraeth Cymru a'r GIG https://gov.wales/covid-19-guidance-parents-and-carers-support-families-stay-safe-healthy-and-learning?_ga=2.162233980.1977267135.1589112012-706802806.1589112012 - plîs byddwch yn gyfrifol iawn er lles eich iechyd chi a'ch teuloedd yn y cyfnod digynsail a phryderus yma.

Cadwch yn ddiogel a chofion cynnes,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

11/05/20

Dear Parent / Guardian,

I hope you had some time to relax over the bank holiday. I would like to update you with some important messages.

RE-OPENING:
There has been a lot of speculation in the press and on social media over the past week. I kindly draw your attention to these messages from Welsh Government on the matter: https://gov.wales/situation-schools-will-not-change-june-1st-education-minister-says . The message is consistent from the Minister for Education and Skills for Wales, in relation to the 5 key principles for re-opening schools - see here: https://gov.wales/education-minister-sets-out-five-key-principles-schools-return . Naturally, we will keep you informed of any developments as soon as any further information can be shared.

WELLBEING:
With the Whitsun half-term holiday approaching, we feel strongly that it is a good opportunity for pupils to have a break from schoolwork during this period. Work will not be set for pupils at all during the week and pupils are NOT expected to spend time on schoolwork during the half-term break. It would be beneficial for all our pupils' wellbeing if they spent quality time with family, contacted friends and family on-line and ensured they were exercising daily during this break.

As is our current practic , we will continue to contact our pupils who require support during the half term holiday. However, if you feel you would like to discuss any concerns about your child's welfare, please get in touch. Use the school email below, my email: DaviesS456@hwbcymru.net, or contact Mr Bridgens via his email: BridgensM@hwbcymru.net

DISTANCE LEARNING:
Naturally, we will continue to set tasks, in accordance with the timetable over the two weeks leading up to half- term. Also, please see our website for resources to support pupils and parents. If you have any concerns - please contact us.

After the Whitsun half-term:

The nature of distance learning will continue as at present for **years 7, 8, 10 and 12** after half-term.

However, as **year 9** pupils have completed their GCSE options, it is our intention to begin our usual interim timetable with year 9 pupils, enabling learners to begin studying their GCSE courses for the last half-term (there will be no new timetable - we will continue to work in accordance with the current assigned timetable). Our aim here is to motivate year 9 pupils to continue to engage with their distance learning. However, we are very aware of the concerns of learning new information and subject knowledge without the direct support of their teachers, particularly in some subjects that will be completely new to our pupils.

As a result, the teachers will provide a video that will introduce the subject and then tasks to develop their background knowledge through reading, research and some interesting opportunities to gather knowledge in relation to their new courses. There will be on-going help and support with tasks to test understanding through digital quizzes and question and answer sessions on the Teams platform (as and when they are required). If you have any concerns, please encourage your child to contact their teachers for further help and support.

Year 11 pupils will be provided with work that 'prepares pupils for 6th Form courses' and we expect all pupils who wish to return to the 6th Form to engage with these tasks. These tasks will be set on SMHW for all year 11 pupils as their choices for the 6Th Form will not be confirmed until after they receive their results in August. However, teachers are aware of the provisional choices our year 11 made in February in order to create our options columns.

Year 13 pupils are expected to prepare for their university courses through specific reading and research. Again, please encourage pupils to contact subject teachers for guidance and support here.

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol Sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

WELSHNESS: please encourage your child to check the weekly Welshness challenges Miss Clarke has set for them on SMHW. This is a great opportunity for you to learn more Welsh – why not have go at it with your children! See this link for advice to help non-Welsh speaking parents support their children in Welsh medium education: https://www.youtube.com/watch?v=vrGFWr9rayE

COMMUNICATION WITH PARENTS:
We will continue to update our parents via text messages with a link to the website to share important updates - please check our website regularly for any developments. Please follow the school on twitter: @bryntawe as there is also a wealth of information shared here, as well as numerous accounts run by different departments and year groups. The work of the school continues and we are open daily, so please contact us at school or via the e-mail address below to discuss any issues. See the information below:

Weekly and weekend emergency childcare: contact me directly on DaviesS456@hwbcymru.net or via the school e-mail address to discuss any further requirements.

Free School Meals: we are delivering weekly bags to around 140 school pupils and their families every Monday. We have been able to discuss provision with nearly all of our families about these arrangements, but please contact us at school if your child is eligible and you would like to receive a weekly delivery. There are ongoing discussions to offer BACS payment (to parents of eligible pupils) as an alternative to the weekly delivery, though this remains unconfirmed. We will require a parent's current email address to be able to implement payments, should it become a possible option. Please send your e-mail address to LeonardE18@hwbcymru.net and BowenJ129@hwbcymru.net if your child is eligible for free school meals.

Laptops: We have 'loaned' approximately 90 laptops to our pupils to support with distance learning. If they have received a device, can you please ensure that your child makes the best possible use of the equipment, ensuring they are returned in the same condition in which they were received from the school. We track and monitor the work pupils submit to their teachers and will contact pupils who do not submit work in order to collect their laptops as the loaning of devices is in high demand.

Penlan food bank: School staff volunteer weekly to support the Penlan food bank. Contact us for more details in relation to this facility.

Visors: We continue to provide visors for healthcare workers in our community, with over 1000 now distributed. If you know of parents, or workers in our community who would benefit from the visors, please contact Miss Lindzi Miller for more information: MillerL54@hwbcymru.net

Finally, our thoughts are with the Bryn Tawe families who have been directly affected by the virus and our deepest sympathies, as a school community, go out to these families. We once again advise that we follow the consistent advice from Welsh Government and the NHS (https://gov.wales/covid-19-guidance-parents-and-carers-support-families-stay-safe-healthy-and-learning?_ga=2.162233980.1977267135.1589112012-706802806.1589112012) to support your health and that of your family during these unprecedented times. Stay safe.

Kind regards,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales